Patient Experience

Profiad y Claf

# STRAEON DIGIDOL

GIG CYMRU NHS WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Cardiff and Vale University Health Board



# BETH YW STRAEON DIGIDOL?

Ffilmiau byrion amlgyfrwng yw straeon digidol, sy'n cyfuno ffotograffau, fideo, animeiddio, sain, cerddoriaeth, testun a llais naratif. Fel arfer maent yn para tua 2 i 5 munud.

Mae straeon digidol yn cael eu hadrodd o'n cwmpas ym mhob man. Mae fideos, podlediadau, a hysbysebion yn defnyddio geiriau wedi eu paru â delweddau i rannu straeon ystyrlon gydag ystod eang o bobl.

Mae'r broses o adrodd straeon digidol yn rhannu profiadau personol unigolion mewn ffyrdd na all adrodd straeon traddodiadol fel straeon llafar ac ysgrifenedig eu gwneud.

Gall y broses o rannu profiad iacháu a grymuso'r sawl sy'n adrodd y straeon.

# PWY ALL ADRODD EU STORI?

Gall unrhyw glaf, aelod o'r teulu neu ofalwr di-dâl adrodd ei stori ar unrhyw adeg. Mae'n syml iawn i adrodd stori.

Mae'n bwysig i ni gasglu straeon sy'n adlewyrchu'r ystod amrywiol o gleifion sy'n defnyddio ein gwasanaethau.

# PAM DDYLECH CHI RANNU EICH STORI?

Gall adrodd eich stori neu stori anwylyd fod yn brofiad a fydd yn eich grymuso.

Y storïwr yw cyfarwyddwr y stori drwy gydol y broses.

Drwy ddweud eich stori:
· Gallwch dynnu sylw at arfer gorau pan fydd pethau wedi mynd yn iawn
· Gall eich stori helpu i wneud newid pan nad yw pethau wedi mynd yn iawn
· Gellir defnyddio eich stori i eirioli dros wasanaethau gwell i eraill
· Gall helpu yn y broses iachâu ac adfer



Gellir defnyddio eich stori i eirioli dros well gwasanaethau i eraill.

# SUT MAE'CH STORI YN CAEL EI HADRODD?

Gallwch adrodd eich stori mewn sawl ffordd. Gellir adrodd straeon mewn cyfarfod rhithwir Microsoft Teams, dros Zoom, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb drwy ddefnyddio meicroffon recordio.

Dim ond sain fydd yn cael ei chymryd o'r sesiwn. Bydd hyn wedyn yn cael ei ddefnyddio gyda ffotograffau rydych chi'n eu darparu neu luniau stoc, i fynd ochr yn ochr â'ch stori. Gallwch adrodd eich stori yn ddienw os dymunwch. Ni fydd rhannu eich stori yn effeithio ar y gofal a gewch. Ni fydd eich stori yn cael ei rhannu ag unrhyw un nes eich bod wedi rhoi caniatâd i ni wneud hynny.

# BETH SY'N DIGWYDD I FY STORI?



Chi sy'n penderfynu ble rydych chi'n hapus i rannu eich stori.

Efallai y byddwch yn dymuno i'ch stori gael ei rhannu'n fewnol er mwyn helpu i hyfforddi staff neu efallai y byddwch yn dymuno iddi gael ei rhannu'n allanol i gynulleidfa ehangach drwy ein gwefan neu gyfryngau cymdeithasol.

Gallwch ddefnyddio ein ffurflen caniatâd i ddweud wrthym ble hoffech i'ch stori gael ei rhannu.

Gallwch newid eich meddwl unrhyw bryd am ble mae eich stori'n cael ei rhannu.

Gellir defnyddio eich stori i dynnu sylw at arfer gorau.

# SUT ALLA I GYSYLLTU?

Os oes gennych chi stori yr hoffech ei hadrodd neu os hoffech chi gael gwybod mwy am straeon digidol, anfonwch e-bost at pe.cav@wales.nhs.uk

Mae straeon cleifion yn ymwneud â rhannu profiadau a dysgu ohonynt, nid gwneud iawn, ac nid ydynt yn rhan o'r broses gwynion ffurfiol.

Os ydych yn dymuno gwneud cwyn, cysylltwch â'n Tîm Pryderon drwy anfon e-bost at concerns@wales.nhs.uk

Diolch.